**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 18 Hydref 2017 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Doyle (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| J P Curtice | P R Hood-Williams | E T Kirchner |
| K M Roberts | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Chris Sivers | Cyfarwyddwr Pobl |
| Julie Thomas | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Alex Williams | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): Y V Jardine, E J King, M B Lewis a G J Tanner

---

## 20 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 21 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu a gynhaliwyd ar 20 Medi 2017 fel cofnod cywir.

**Contractau yn ôl y galw/cyflenwi**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion ddiweddariad i'r pwyllgor am gontractau yn ôl y galw/cyflenwi. Cadarnhawyd ganddi fod 109 o staff yn gweithio i RST, ac roedd hynny'n cynnwys 67 o staff allanol a 42 a oedd eisoes yn cael eu cyflogi gan y cyngor.

Cyflwynwyd canlyniadau'r Holiadur Contractau Cyflenwi a oedd yn rhoi adborth staff ar fanteision ac anfanteision y system contractau cyflenwi. Ar y cyfan, roedd yr adborth yn gadarnhaol oherwydd roedd gan staff gontractau a oedd yn addas i'w ffordd o fyw. Yn ogystal, darparwyd enghreifftiau o sut y dyrannwyd amser rhai o'r

gweithwyr RST dros gyfnod o 3 mis, ynghyd ag oriau a lleoliadau RST a weithiwyd yn ystod mis Awst 2017.

Gofynnwyd cwestiynau gan y pwyllgor mewn perthynas â'r canlynol: -

- Os oedd gweithwyr RST yn gweithio yn rhywle arall, cyfanswm nifer yr oriau a weithiwyd ganddynt a'u patrymau gweithio;
- Ymgymryd â gwiriadau mewn perthynas â'r oriau a weithiwyd gan staff a oedd hefyd yn gweithio i'r awdurdod;
- Trefniadau gweithio hyblyg i staff.

Penderfynodd y pwyllgor nad oedd am gynnal sesiwn gyda staff yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 20 Rhagfyr 2017, wedi ystyried yr wybodaeth a adroddwyd iddo gan Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion.

O ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, **penderfynwyd** y dylai'r cadeirydd adrodd am y canfyddiadau i Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles.

## 22 Cyflwyniad ar Gynllun Partneriaeth Strategol PPI.

Darparwyd cyflwyniad i'r pwyllgor gan y Cyfarwyddwr Pobl ynghylch y Cynllun Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc. Roedd y manylion a ddarparwyd yn cynnwys: -

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
- Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc;
- Cefndir;
- Gweledigaeth;
- Dyheadau;
- Blaenoriaethau Plant a Phobl Ifanc;
- Fframwaith y Cynllun;
- Amcanion Strategol y Cynllun;
- Gwaith y 12 mis diwethaf;
- Edrych ymlaen at y dyfodol a chamau nesaf.

Gofynnodd cynghorwyr gwestiynau ynghylch cynlluniau monitro; amserlenni penodol; anghenion cefnogaeth pobl ifanc ddiamddiffyn; penaethiaid yn ymdrin â materion diogelu, ac ysgolion a oedd wedi ymrwymo i CCUHP.

Cadarnhawyd gan y Cyfarwyddwr Pobl mai 3 ysgol yn unig nad oedd wedi ymrwymo i CCUHP.

Penderfynwyd: -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad;
2) Cylchredeg y cyflwyniad i'r pwyllgor.

## 23 Trosolwg Cynnydd Cyfredol yr Adolygiad Comisiynu Cefnogi Teuluoedd. (Ar lafar)

Darparwyd cyflwyniad trosolwg o'r cynnydd cyfredol o ran yr Adolygiad Comisiynu Cefnogi Teuluoedd gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Roedd y manylion a ddarparwyd yn cynnwys: -

- Continwwm Cefnogi Teuluoedd – y Darlun Mwy;
- Gweledigaeth a diben cymorth i deuluoedd;
- Cefnogi lles a diogelwch plant, pobl ifanc a theuluoedd yn Abertawe;
- Continwwm Cefnogi Teuluoedd – Adolygiad Comisiynu;
- Amcanion;
- Casgliadau – gwasanaethau cymorth i deuluoedd – dan 11 oed ac 11+ oed;
- Casgliadau – gwasanaethau cymorth cam-drin domestig i deuluoedd;
- Camau nesaf.

Canolbwyntiodd trafodaethau ar effaith gadarnhaol cydlynwyr ardaloedd lleol; yr angen am ymagwedd fwy cydlynol o ran mynd i'r afael ag anghenion dysgu ychwanegol wrth bontio rhwng yr ysgol ac addysg bellach; cyfrifoldeb rheolwyr i gadw plant yn ddiogel.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod y Bwrdd Magu Plant Corfforaethol yn monitro plant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau canlyniadau da ac amddiffyn plant.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys y cyflwyniad.

## 24 Cynllun Gwaith 2017-2018.

Cyflwynodd y cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2017/2018.

Cyfeiriodd at adroddiad am weithrediad y PDChP yn y dyfodol a gaiff ei drafod yng Ngweithgor y Cyfansoddiad a'r cyngor ym mis Tachwedd. Ychwanegodd y byddai'r pwyllgor yn trafod sut yr oedd am weithio yn y dyfodol yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd.

Trafodwyd pynciau trafod posib gan y pwyllgor a sut y gellid trefnu cyfarfodydd y dyfodol.

**Penderfynwyd**: -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad.
2) Trafodir sut y mae'r pwyllgor yn dymuno gweithredu yn y dyfodol yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.28 pm

**Cadeirydd**